

Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 15 Gorffennaf 2026, am 6.00pm.

PRESENNOL

Y Cynghorydd W. Price (Dirprwy Faer)

Y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs E. M. Chard, Ms J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, C. L. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, T. Thomas, A. Walker a Miss C. L. Williams

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref

39. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Gwnaeth Caplan y Maer, y Parchedig Janet Crane, ddechrau'r cyfarfod drwy arwain pawb a oedd yn dymuno cymryd rhan mewn gweddi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE.

Croesawodd y Dirprwy Faer bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y Cynghorydd Tony Thomas i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Thomas ei fod yn falch o fod yn ei ôl a'i fod wedi derbyn llawer o sylwadau cadarnhau am ei ragflaenydd, y diweddar Gynghorydd Mrs Jeanette Chamberlain-Jones, a'i gwasanaeth i gymuned ward Derwen.

40. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Dirprwy Faer a oedd gan y cynghorwyr unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Datganodd y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard ac A. R. James ddatganiad personol yn eitem agenda rhif 11 (Ymgynghoriad: Awdurdod Trwyddedu Sir Ddinbych – Datganiad Egwyddorion drafft dan Ddeddf Gamblo 2005) fel aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu.

41. DATGANIAD YNGHYLCH SWYDD CYNGHORYDD CYMUNED

Gwnaeth Clerc y Dref ddatganiad ffurfiol fod swydd wag Cynghorydd Cymuned i gynrychioli ward Bodfor yn dilyn ymddiswyddiad James Kenney. Yn anffodus, oherwydd newid mewn amgylchiadau, nid oedd Mr Kenney yn medru mynychu cyfarfodydd gyda'r nos y Cyngor mwyach.

Cynghorodd Clerc y Dref y byddai'n hysbysu Cyngor Sir Ddinbych ac yn cyhoeddi'r swydd wag yfory, gan wahodd 10 o etholwyr o ward Bodfor i wneud

cais i gynnal etholiad. Os na cheir cais o'r fath yna byddai'r Cyngor Tref yn llenwi'r swydd wag drwy gyfethol.

42. **COFNODION**

Cyfarfod y Cyngor - 17 Mehefin 2026 - Cofnodion rhifau 19-38

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnodion cywir.

Y Pwyllgor Cynllunio - 17 Mehefin 2026 - Cofnodion rhifau 1-4

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnodion cywir.

43. **ADRODDIAD Y MAER**

Dywedodd y Dirprwy Faer, ar ran y Maer, fod Carnifal y Rhyl wedi bod yn ddiwrnod gwych yn yr haul braf, a bod y tocynnau anrheg a roddwyd gan y Cyngor Tref fel gwobrau wedi'u derbyn yn ddiolchgar iawn.

44. **CYFLWYNIAD: SIR DDINBYCH YN GWEITHIO**

Croesawodd y Maer Swyddogion Ymgysylltu Sir Ddinbych yn Gweithio, Tyra Beattie a Susan Tracy, i'r cyfarfod a'u gwahodd i roi cyflwyniad i'r cynghorwyr.

Diolchodd Tyra i'r Cyngor am gytuno iddi hi a Susan ddod i'r cyfarfod. Cynghorodd fod Sir Ddinbych yn Gweithio yn cael ei gyllido gan Gyngor Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynorthwyo trigolion dros 16 oed i ddychwelyd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Eu lleoliad yw hen adeilad Costigan, sef y Vibe Station erbyn hyn.

Dywedodd Susan mai'r rheswm eu bod yn y cyfarfod oedd fel rhan o'u gwaith ymgysylltu parhaus gyda'r gymuned, i annog cynghorwyr i atgyfeirio trigolion at y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth a gynigir yn defnyddio dull 'siop un alwad' sy'n rhoi cymorth i ddatblygu'r sgiliau meddalach fel cynyddu hyder, rheoli amser, llunio arferion rheolaidd, paratoi ar gyfer cyfweiliad ac ati yn ogystal â chynnig gweithgareddau hwyliog eraill.

Mae Bwrdd y Prosiect yn canolbwyntio ar helpu pobl i fod yn barod ar gyfer gwaith, gyda gwasanaethau dilynol fel mentoriaid gwaith ac ariannu hyfforddiant galwedigaethol yn llawn.

Maen nhw'n gweithio gyda Pathways hefyd, gyda'r hyfforddiant a'r profiad gwaith a gynigiwyd yn arwain at swydd.

Y nod yw cael gwared ar unrhyw rwystrau mae pobl yn eu hwynebu sy'n eu hatal rhag derbyn cyflogaeth.

Cytunodd Tyra a Susan i roi manylion i'r Cyngor Tref ynghylch nifer y bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw ar draws yr holl wardiau yn y Rhyl.

45. **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MIS MAI 2025 (ATODLEN A)**

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at yr adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion yr atodlen taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

Rhif taleb	Enw'r cyflenwr	Swm £	Disgrifiad y gwasanaethau
2230	BT	92.46	BT – offer Neuadd y Dref
2231	BT	378.00	BT – ffonau a band eang Neuadd y Dref
Amherthnasol	Tesco	3.00	Yswiriant ffôn symudol
Amherthnasol	Tesco	9.54	Ffôn symudol
2233	O2	57.60	Ffonau symudol
2232	BT	93.90	BT – bil terfynol Canolfan Cymuned Ffordd Wellington
2204	Cyngor Sir Ddinbych	828.00	Treth Gyngor Canolfan Cymuned Ffordd Wellington 3 o 10
2244	Staff Cyngor Tref y Rhyl	9,190.01	Cyflog net mis Mehefin 2026 – pedwar aelod o staff
2242	Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi	3,577.60	Didyniadau Talu wrth Ennill mis Mai 2026
2243	Cyngor Sir y Fflint	2,776.35	Cyfraniadau i Gronfa Bensiwn Clwyd – mis Mai 2026
2246	Siop Cyngor ynghylch Budd-daliadau	3,903.28	Swyddog Apeliadau Chwarter 1 (Taliadau 1, 2 a 3 o 12)
2245	Cyngor ar Bopeth	2,072.00	Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – taliad 1 o 4
N/A	Tesco	3.00	Ffôn symudol
	Cyfanswm y taliadau	22,984.74	

Categori	Disgrifiad	Swm £
Santander	Llog ar y cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod	264.99
HSBC	Llog ar y cyfrif Business Money Maker	558.60
HSBC	Llog ar y cyfrif adneuo un mis	959.56
	Cyfanswm yr incwm	1,783.15

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

46. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Maer at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (rhestr o daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Rhif taleb	Cyflenwr	Manylion y cyflenwad	Swm £
2257	Racecraft Signs	Diweddaru Bwrdd y Meiri mewn deilen aur	£128.16
2258	Shredall Ltd	Rhwygo gwastraff cyfrinachol yng Nghanolfan Cymuned Ffordd Wellington	£727.92
2265	Cronfa'r Maer - Lloyds Bank	Cyfraniad at ffioedd bancio (4 mis x £4.25 am bob mis calendr)	£17.00
2266	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Stêm y Rhyl	Yswiriant ar gyfer Billy a'r plat enw	£254.80
2267	Pottles Premier Plants Ltd	Planhigion yr haf 2026	£6,786.72
2268	Y Swyddfa Bost	Tocynnau anrheg i Garnifal y Rhyl	£60.00
2269	Siemens Financial Services Ltd	Prydles y llungopiwr: 31 Gorffennaf 2026 – 30 Hydref 2026	£323.63
2270	Y Cyngorydd R Roberts	Lwfansau Costau a Threuliau 2026/27 (£52 a £156)	£208.00
2271	Y Cyngorydd W Price	Lwfansau Costau a Threuliau 2026/27 (£52 a £156)	£208.00
2272	Sandra Williams	Costau cyfieithu	£241.88
2273	Canda Copying Ltd	Ffi gweinyddu – gosod y llungopiwr newydd	£195.59
2274	Canda Copying Ltd	Ffioedd llungopïo hyd at 29/06/26	£60.00
2275	Blachere Illumination UK Ltd	Trwsio'r goleuadau Nadolig	£108.78
2276	Cyngorydd S Connolly	Lwfansau Costau a Threuliau 2026/27 (£52 a £156)	£208.00
	Cyfanswm Atodlen B		£9,528.48

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen a'i llofnodi gan ddau gyngorydd.

47. PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2026/27: CHWARTER 1 – MIS EBRILL – MIS MEHEFIN 2026

Cyfeiriodd Clerc y dref at yr adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), yn cynghori fod buddsoddiadau'r Cyngor Tref wedi ennill £3,391 yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.

PENDERFYNWYD *derbyn yr adroddiad, gyda diolch i'r Swyddog Cyllid am ei waith clodwiw.*

48. CYFRIFON ARIANNOL 2026/27: CHWARTER 1 – MIS EBRILL – MIS MEHEFIN 2026 A'R RHAGFYNEGIAID AR GYFER 2026/27

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), gan dynnu sylw'r aelodau at yr amrywiaethau a ragfynegwyd.

Dywedodd unwaith eto fod peth ansicrwydd ynghylch gwariant dan yr holl benawdau cyllideb, a fyddai'n cael eu penderfynu'n derfynol unwaith y byddai'r ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y blaenoriaethau wedi'i gynnal. Pan fyddai hynny wedi'i wneud, gallai'r Cyngor ddyrannu cyllideb i bob un o'i feysydd blaenoriaeth.

PENDERFYNWYD *nodi'r adroddiad.*

49. YMGYNGHORIAD: AWDURDOD TRWYDDEDU SIR DDINBYCH – DATGANIAD EGWYDDORION DRAFFT DAN DDEDDF GAMBLO 2005

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y ddogfen ymgynghori (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r Cynghorwyr ei ystyried.

PENDERFYNWYD *derbyn y ddogfen.*

50. EITEM GAN AELOD: CAIS GAN GLWB HANES Y RHYL

Hysbysodd Clerc y Dref y derbyniwyd gohebiaeth (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn cynghori am y goeden afalau 'Rhyl Beauty' ac yn gofyn i'r Cyngor Tref ystyried prynu nifer ohonynt.

Ychwanegodd y Clerc fod arian ar gael yn y gyllideb Mannau Agored a/neu'r gyllideb Cynnal a Chadw Tiroedd.

PENDERFYNWYD *cymradwyo'r cais a'i gyfeirio at yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd i'w weithredu.*

51. EITEM GAN AELOD: 'EIN RHYL'

Gofynnodd y Cynghorydd C. Jones am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyngor Tref gael ei ddiweddarau ynghylch y cynnydd a wnaed gan Fwrdd 'Ein Rhyl,' o gofio pwysigrwydd yr £20 miliwn o gyllid Balchder Bro sydd ar gael i'r Rhyl dros gyfnod o 10 mlynedd.

Rhoddodd y Cynghorydd B. Mellor drosolwg cryno i'r Cynghorwyr am gefndir y cyllid a'r oedi a achoswyd gan y newid yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ers hynny.

Aeth y Cynghorydd Mellor ymlaen i nodi y dylai'r arian ddechrau dod trwodd ym mis Ebrill 2027, a bod y Bwrdd yn cynnal ymgysylltu cyhoeddus 'Y Cam Gwrando' yr haf hwn.

Cytunodd yr aelodau ei bod yn synhwyrol rhannu gwybodaeth rhwng y Bwrdd a'r Cyngor Tref, a gallai arwain at gyfleoedd partneriaeth a helpu i osgoi dyblygu cymorth a phrosiectau yn ystod y misoedd nesaf.

PENDERFYNWYD y byddai'r Clerc y Dref yn cysylltu â Rheolwr Rhaglen y Bwrdd ac yn ychwanegu eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod Cyngor Tref yn y dyfodol.

52. EITEM ER GWYBODAETH: CAIS GAN Y PARCHEDIG CRANE

Awgrymodd Clerc y Dref ohirio'r eitem tan y cyfarfod nesaf, yn absenoldeb y Cynghorydd Mrs J. Butterfield.

PENDERFYNWYD gohirio'r eitem i gyfarfod y Cyngor ym mis Medi.

53. SESIWN HOLI AC ATEB

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

54. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.

55. GOLEUADAU NADOLIG

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r Cyngorwyr ei ystyried.

PENDERFYNWYD fod yr aelodau o blaid ehangu'r cynllun i strydoedd eraill yng nghanol y dref gan roi cyfarwyddiadau i Clerc y Dref gysylltu â darparwydd cyfredol y Cyngor, Blachere Illuminations.

56. ARDDANGOSFA TÂN GWYLLT A CHOELCERTH CYMUNEDOL

Cynghorodd Clerc y Dref fod y swm arferol o £5,000 wedi'i gyllidebu ar gyfer yr arddangosfa tân gwyllt eleni, a gofynnodd i'r aelodau gadarnhau eu bod yn cefnogi'r gwariant hwn.

Cafwyd trafodaeth ynghylch rhinweddau tân gwyllt traddodiadol a tân gwyllt heb sŵn, gyda bod yn feddylgar tuag at anifeiliaid anwes wedi'i gydbwyso yn erbyn cynnal digwyddiad cymunedol mawr gyda darpariaethau diogelwch llawn, i annog trigolion i beidio â chynnal arddangosfeydd tân gwyllt llai niferus ledled y dref, heb y Gwasanaeth Tân yno.

Fe'i rhoddwyd i'r bleidlais a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo'r swm o £5,000 a rhoi cyfarwyddiadau i Glerc y Dref gysylltu â'r Gwasanaeth Tân i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer tân gwyllt traddodiadol yn yr arddangosfa eleni.

57. **CYFNOD GWYLIAU MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Gofynnodd y Dirprwy Faer am gymeradwyaeth yr aelodau ar gyfer y trefniadau i ddirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad â'r aelodau isod am y cyfnod 16 Gorffennaf tan 16 Medi 2026:

Materion Dinesig	-	Y Maer a/neu'r Dirprwy Faer
Materion Cynllunio	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Eitemau'r Pwyllgor Cynllunio - Strategol a Gweithredol	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol
Pob busnes arall	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol

PENDERFYNWYD cadarnhau'r trefniadau.

58. **DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Dirprwy Faer ddiwedd y cyfarfod.

Dirprwy Faer:

Dyddiad: